



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

**COFNODION HEB EU CADARNHAU O GYFARFOD AGORED
YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU A
GYNHALIWYD DYDD GWENER 8 MAI 2015. YN NHŶ PWYNT VANTAGE,
CWMBRAN A PHENCADLYS LLANELWY**

AELODAU'R BWRDD

OEDD YN

BRESENNOL:

Mick Giannasi	Cadeirydd y Bwrdd
Tracy Myhill	Prif Weithredwr
Emrys Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Pam Hall	Cyfarwyddwraig Anweithredol (drwy VC Pencadlys Llanelwy)
Judith Hardisty	Cyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol
Sara Jones	Cyfarwyddwraig Ansawdd a Nyrso
Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol
John Morgan	Cyfarwyddwr Anweithredol, Pennaeth Gweithrediadau
Gordon Roberts	Cenedlaethol (EMS) (drwy VC Pencadlys Llanelwy)
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwraig Cyllid ac ICT
David Scott	Cyfarwyddwr Anweithredol (drwy VC Pencadlys Llanelwy)
Martin Woodford	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd

CYNRYCHIOLWYR

BWRDD YR

YMDDIRIEDOLAETH:

Hugh Bennett	Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwraig Cysylltiol, Swyddfa'r Prif Weithredwr (Ymunodd yn ystod Cofnod 31/15)
Nigel Heal	Cynrychiolydd Staff
Melfyn Hughes	Swyddog Iaith Gymraeg
Dawn Sharp	Ysgrifennydd Corfforaethol
Claire Vaughan	Cyfarwyddwraig Cysylltiol Trawsnewid (Gweithlu)
Jonathan Watts	Cyfarwyddwr Cysylltiol Rhaglenni

YMDDIHEURIADAU

Mike Collins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Mike Coupe	Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
James Mycroft	Cyfarwyddwr Anweithredol
Bleddyn Roberts	Cynrychiolydd Staff

28/15 CROESO A DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD

Agorodd Cadeirydd y Bwrdd, Mick Giannasi, y cyfarfod ac atgoffodd bawb ei fod yn cael ei recordio ar dâp. Croesawodd bawb i brif ran y cyfarfod yn arbennig Claire Vaughan, Cyfarwyddwraig Cysylltiol Trawsnewid (Gweithlu), Hugh Bennett, Pennaeth Cynllunio a

Pherfformiad a Jonathan Watts, Cyfarwyddwr Cysylltiol Rhaglenni.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adolygiad datblygu perfformiad diweddar a gynhaliwyd gyda'r Gweinidog Iechyd. Bu'r adborth yn hynod bositif ac roedd y Gweinidog yn hynod hapus gyda'r cynnydd cyffredinol gan ychwanegu ei fod yn teimlo bod synnwyr cynyddol o fomentwm o fewn yr Ymddiriedolaeth. O safbwynt y Cynllun Tymor Canolig (IMTP), cydnabu'r Gweinidog nad oedd eto wedi'i gymeradwyo, fodd bynnag, er waethaf hynny, croesawodd y gwaith a wnaed hyd yn hyn a dywedodd ei fod yn sylfaen cadarn i symud ymlaen.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch ef a'r Bwrdd i'r holl staff am ganolbwyntio eu hymdrechion yn yr ymdrech i wella perfformiad drwy'r heriau parhaus roedden nhw'n eu hwynebu.

PENDERFYNWYD: Derbyniad adroddiad llafar Cadeirydd y Bwrdd.

29/15 ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR INTERIM

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad llafar y Prif Weithredwr Interim. Amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- **Perfformiad** - Roedd wedi bod yn galonogol iawn bod y perfformiad wedi gwella mis ar ôl mis am y tri mis diwethaf ac ail adroddwyd y diolch i'r holl staff.
- **Prosiect Archwiliwr Bwrdd Iechyd Cwm Taf**– Bu'r gwelliant ym mherfformiad A8 yn anhygoel, roedd ysbryd y staff wedi gwella'n fawr ac roedd yr amser a gymerwyd i drosglwyddo i glirio mewn ysbytai'n gwella'n sylweddol.
- **Absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithrediadau** - Yn ystod yr adeg hon, y trefniadau oedd: Swyddog Atebol, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn cael eu cefnogi'n gymwys gan y canlynol gyda'u cyfrifoldebau arbennig fel y nodwyd: Gordon Roberts (Gweithrediadau), Richard Lee (Gwasanaethau clinigol) a Nick Smith (Cludiant Cleifion nad sy'n Achosion Brys).
- **Rhanbarth y Gogledd a'r Pencadlys – ymweliad y Prif Weithredwr** – Bu'r ymweliad diweddar â'r Gogledd yn hynod gynhyrchiol a llawn gwybodaeth. Roedd staff y Pencadlys wedi mynegi nifer o bryderon gydag un yn nodi diffyg cyfathrebu o safbwynt cael gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau o'u safbwynt hwy.
- **Seremonïau gwobrwyo** - Bu'r rhain yn llwyddiant mawr ac roedden nhw'n gyfle delfrydol i'r staff gael eu cydnabod am y gwaith y maen nhw'n ei wneud.

PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad llafar y Prif Weithredwr.

30/15 MATERION GWEITHREDOL

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau am ddatganiad sefydlog Mr Emrys Davies fel aelod wedi ymddeol o UNITE.

Cofnodion

Cadarnhawyd Cofnodion sesiynau Agored a Chaèedig y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2015 fel cofnod cywir o wneud y mân newidiadau fel y trafodwyd.

Log Gweithredu

Nodi'r diweddariad ar y Log Gweithredu.

Mentorai'r Bwrdd

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd fod mentoriaeth 12 mis y ddau Fentorai, Jennie Allport a Moawia Bin-Sufyan wedi dod i ben ac na fydden nhw'n cael eu hymestyn. Dywedodd hefyd wrth y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru erbyn hyn wedi datblygu rhaglen 'pawb arno' ar draws Cymru o ganlyniad uniongyrchol i benodiad Mentorai gan y Bwrdd gyda phob Bwrdd â dau Fentorai. Ar hyn o bryd, roedd 18 o bobl o grwpiau nad sy'n cael eu cynrychioli fel arfer yn mynd drwy'r rhaglen ddatblygu gyda'r bwriad y bydden nhw, drwy ddatblygiad a hyfforddiant, yn well ymgeiswyr yn y dyfodol. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn y broses o dynnu rhestr fer ar gyfer darpar Mentorai i'r Ymddiriedolaeth.

Cynrychiolaeth Staff

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd fod y Gweinidog Iechyd wedi cymeradwyo Nigel Heal a Bleddyn Roberts fel 2 aelod cynrychiolaeth Staff i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

PENDERFYNWYD:

- (1) nodi datganiad sefydlog Mr Emrys Davies fel aelod wedi ymddeol o UNITE;**
- (2) cadarnhau Cofnodion sesiynau agored a chaèedig y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2015 fel cofnod cywir o wneud y mân newidiadau fel y nodwyd;**
- (3) nodi fod mentoriaeth 12 mis Jennie Allport a Moawia Bin-Sufyan wedi dod i ben; a**
- (4) nodi cadarnhau'r cynrychiolwyr Staff, Nigel Heal a Bleddyn Roberts fel Aelodau'r Bwrdd.**

31/15 2015/16 CYLLIDEBAU STARTPOINT

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT yr adroddiad a rhoddodd drosolwg byr i'r Aelodau am bob un o'r rhagdybiaethau incwm allweddol fel y nodwyd o fewn yr adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd sylwadau oddi wrth yr Aelodau. Codwyd pwyntiau canlynol:

- Roedd Martin Woodford, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'n fodlon i ohirio sylw ar fanylion y gyllideb hyd at sesiwn caèedig y cyfarfod Bwrdd hwn.
- Codwyd cwestiwn am y risgiau allweddol ac yn arbennig pam bod risg allweddol rhif pedwar wedi'i nodi fel risg gan y gallai hyn fod yn rhywbeth y gellid ei herio. Eglurodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT petai swm amhriodol o gostau refeniw'n

cael eu trosglwyddo i'r rhaglen gyfalaf, y byddai hyn yn cael ei herio gan yr archwilwyr – dyna'r rheswm dros ei restru fel risg.

- **PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r cyllidebau agoriadol arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 yn unol â'r crynodeb yn yr adroddiad oni bai bod unrhyw broblemau sylweddol yn codi o'r drafodaeth yn sesiwn Caëedig cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.**

32/15 COMISIYNU CYDWEITHREDOL CENEDLAETHOL: FFRAMWAITH ANSAWDD A CHYFLENWI AR GYFER GWASANAETHAU AMBIWLANS ARGYFWNG (CQDF).

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a dywedodd wrth yr Aelodau ei bod yn hanfodol ac yn sylfaenol i ddatblygiad a llwyddiant yr Ymddiriedolaeth a chyflwynodd Hugh Bennett, Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad oedd yn rhoi crynodeb manwl o'r fframwaith i'r Bwrdd..

Dywedodd Martin Woodford wrth y Bwrdd am drafodaeth y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn ei gyfarfod diwethaf a dywedodd y bydden nhw'n delio ag unrhyw argymhelliad o'r cyfarfod hwnnw.

Barn gyffredinol y Bwrdd oedd ei fod yn fodlon ac yn gefnogol iawn i'r ddogfen fynd ymlaen.

PENDERFYNWYD:

- (1) **nodi'r crynodeb o'r Fframwaith;**
- (2) **cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar ran y Bwrdd i awdurdodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, i arwyddo'r Cytundeb Fframwaith gyda'r amodau y byddai WAST yn ymrwmo i wella perfformiad mis wrth fis. Diffinnir y safonau, y deilliannau a'r mesurau a nodwyd yn y Fframwaith fel meincnod ar gyfer mesur gwelliant yn hytrach na thargedau lle byddai WAST yn atebol;**
- (3) **nodi'r llythyr oddi wrth y Prif Weithredwr at Brif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans (CASC); a**
- (4) **nodi trefniadau datblygu ar gyfer rheoli'r berthynas gydweithredol barhaus gyda thîm y Comisiynydd.**

33/15 CYFLENWI'R CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG (IMTP)

The Chief Executive presented the Board with a brief outline of the plan and introduced Jonathan Watts, Associate Programme Director who provided further details of the plan for the Board's attention. It was his intention that staff would be provided with a less technical version of the IMTP for their feedback which would be incorporated into future iterations.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr amlinelliad byr o'r cynllun i'r Bwrdd a chyflwynodd Jonathan Watts, y Cyfarwyddwr Cysylltiol Rhaglenni oedd yn rhoi manylion pellach am y cynllun i sylw'r Bwrdd. Ei fwriad oedd y byddai staff yn cael fersiwn llai technegol o'r IMTP i gael eu hadborth fyddai'n cael ei ymgorffori mewn iteriad yn y dyfodol.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd angen eglurder o safbwynt y cysylltiad rhwng yr wyth thema a'r pedwar llif gwaith. Eglurodd y Prif Weithredwr y bydden nhw'n egluro ymhellach yn y sesiwn Datblygu Bwrdd nesaf.
- O safbwynt perfformiad A8 sut roedd y rhaglen hon yn cefnogi'r ffocws parhaus? Byddai mwy o fanylion ac eglurder am hyn o fewn yr iteriad nesaf o'r cynllun.
- O safbwynt targedau, un o'r heriau a wynebai'r Ymddiriedolaeth oedd ceisio gwella'r hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud ar hyn o bryd a cheisio newid yr hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud i wella – roedd yn rhaid gweithio ac ystyried y ddau beth mewn paralel.
- Dylid cymhwyso gofal a rheolaeth ofalus wrth gyfathrebu i ac ymgysylltu gyda staff o safbwynt yr IMTP er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.
- Roedd teimlad o optimistiaeth ymhlith y staff bod pethau'n dechrau gwella.
- Er bod y ddogfen wedi nodi y byddai elfennau craidd PRINCE2 (Prosiectau mewn amgylcheddau rheoledig) yn cael eu defnyddio (yn hytrach na'r gyfres lawn o offer) gofynnwyd cwestiwn o safbwynt gallu staff i gynnal prosiectau ac a oedd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth am PRINCE2. Atebwyd y broblem hon gan y Cyfarwyddwr Cysylltiol Rhaglenni oedd yn cadarnhau bod elfen graidd o bobl oedd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol ac a oedd yn deall y fethodoleg angenrheidiol. Ychwanegodd y Gyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol ymhellach fod yr Ymddiriedolaeth wedi hyfforddi staff yn y sgil arbennig hon a bod staff oedd yn awyddus i ddysgu ac i ddatblygu'r sgiliau hynny. Byddai'n fuddiol, ar ôl nodi'r diffygion mewn sgiliau, i'r Ymddiriedolaeth edrych ar ba fath o raglen ddatblygu benodol oedd ei hangen i'w chyflwyno i gefnogi'r anghenion hyfforddiant yn y dyfodol.
- O safbwynt y cafeatau yn ymwneud â'r gallu i gyflenwi, a oedd y rhain wedi'u meintioli a'u hychwanegu wrth osod y gyllideb? Cafwyd eglurhad cynhwysfawr gan y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT sut roedd y cafeatau hyn yn berthnasol i'r gyllideb a dywedodd wrth y Bwrdd y byddai'n disgwyl cael ceisiadau pellach am arian datblygu wrth i'r Ymddiriedolaeth esblygu.
- Pam bod ICT yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel busnes fel arfer, dylid ystyried prosiectau ICT fesul achos e.e dosbarthu gyda chymorth Cyfrifiadur (CAD). O safbwynt achos busnes CAD, pwysleisiodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT nad oedd hyn yn fusnes fel arfer, roedd angen criw mawr o bersonël oedd yn ymwneud â'r datblygiad hwn. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cysylltiol Rhaglenni fanylion pellach o safbwynt sut, wrth i brosiectau ddatblygu, roedden nhw'n symud i ffwrdd oddi wrth fusnes fel arfer.
- Dywedodd y Gyfarwyddwr Cysylltiol Rhaglenni wrth y Bwrdd fod risgiau cynhenid o safbwynt medr a gallu pan oedd prosiect yn cael ei ddechrau. Sicrhawyd yr aelodau bod cofrestru risg cadarn ar gael yn awr i ddelio â'r risgiau hyn yn rhagweithiol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr IMTP a dywedodd wrth y Bwrdd y byddai iteriad pellach yn ystyried argymhellion a sylwadau fel y trafodwyd, yn cael ei gyflwyno i

gyfarfod nesaf y Bwrdd.

PENDERFYNWYD:

- (1) nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth ddiwygio'r IMTP yng ngoleuni adborth a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru a chyflwyno IMTP diwygiedig yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd;**
- (2) datblygu IMTP diwygiedig sy'n tynnu at ei gilydd flaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth, gofynion y Fframwaith Comisiynu Cydweithiol ac sy'n ymgorffori elfennau critigol y Rhaglen Drawsnewid Strategol flaenorol;**
- (3) nodi'r broses fewnol a gynhaliwyd i roi sicrwydd am eglurder y blaenoriaethau a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflenwi;**
- (4) nodi'r strwythur a gyflwynwyd i reoli cyflenwi;**
- (5) nodi'r angen am i'r Prif Weithredwr barhau gyda thrafodaethau pellach am ymagweddau WAST i atgyfnerthu a mewnosod cynllunio ar draws WAST;**
- (6) cymeradwyo'r wyth flaenoriaeth arfaethedig ar gyfer 2015/16 yn yr IMTP diwygiedig sydd ar fin cael ei gyflwyno;**
- (7) cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig ar gyfer cyflenwi'r IMTP yn barhaus;**
- (8) bod angen cynnal dadansoddiad o'r anghenion hyfforddi;**
- (9) byddai prosiectau ICT a ystyrir fel rhai strategol neu rai busnes fel arfer yn cael eu cynnal fesul achos.**

PENDERFYNIAD I GYFARFOD MEWN SESIWN CAEEDIG

Penderfynwyd gwahardd cynrychiolwyr y wasg ac aelodau'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod yn unol â gofynion Adran 1(2) Deddf Cyfrif Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960.

Gellir gweld adroddiadau'n ymwneud ag eitemau busnes yn y cofnodion hyn ar wefan yr Ymddiriedolaeth, www.ambulance.wales.nhs.uk